



Defnyddwyr gwasanaethau anabl

25 Mai 2020

Cais am wybodaeth.

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 1 Mai, pan wnaethoch ofyn:

I request the following under the Freedom of Information Act of 2000:

A) A full copy of all recorded information detailing the services international law expectations under the UN Convention of Rights of Persons with Disabilities regarding its disabled service users.

B) A full copy of all recorded information detailing the services British law requirements to its disabled service users under the Human Rights Act of 1998 and the Equality Act of 2010, respectively.

C) A full copy of all recorded information detailing the services Welsh law proscribed public sector equality duties to its disabled services users.

D) A full copy of all recorded information detailing the services disability awareness, training, anticipatory action, adjustment provisions and access measurements in regards its disabled service users.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

E) A full copy of all recorded information detailing the services anti- direct discrimination, indirect discrimination, harassment, and victimisation policy regarding its disabled service users.

F) A full copy of all recorded information detailing the services guidance to its employees for interaction with disabled service users with the following disabilities: Asperger's Syndrome, Autism, OCD, Depression, Dyslexia, and communicative or behavioural, social and communication disabilities.

G) A full copy of any recorded information detailing the services pro-disability progress from 1/1/2019 to 1/1/2020 regarding the services performance to its disabled service users.

H) A fully copy of all recorded information detailing the services present disability recruitment and promotion scheme to its disabled services users.

Mae'r Senedd wedi ymrwymo i hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal i'w staff ac i bobl Cymru. Mae gwaith y Senedd ym maes cydraddoldeb yn canolbwyntio ar y syniad o degwch, urddas a pharch i bawb, a hynny heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaethau sifil, beichiogrwydd/mamolaeth, hil/ethnigrwydd, crefydd/cred, rhyw, neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gallaf gadarnhau bod Comisiwn y Senedd yn cadw gwybodaeth mewn perthynas â rhannau o'ch cais. Fodd bynnag, fel yr wyf yn egluro'n fanwl isod, ni fyddaf yn gallu cydymffurfio â'r cais hwn gan fy mod wedi amcangyfrif y byddai'r gost o wneud hynny – hynny yw, nodi a dethol y wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani at ddibenion ei rhannu â chi – yn fwy na'r "terfyn priodol" o dan adran 12 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf").

Y terfyn priodol ar gyfer Comisiwn y Senedd yw £600. Drwy gymhwyso'r gyfradd tâl fesul awr a ganiateir, sef £25, mae hyn yn cyfateb i 24 awr o waith. Rwyf wedi amcangyfrif y byddai angen gwneud mwy na 600 awr o waith (sy'n cyfateb i £15,000) er mwyn ymdrin ag un rhan yn unig o'ch cais. Mae hyn, wrth gwrs, yn fwy na'r terfyn priodol. Mae hyn o ganlyniad i natur eang iawn eich cais, maint y wybodaeth a gedwir, a nifer y timau a'r unigolion y mae eu cylch gwaith yn berthnasol i'ch cais.

Mae'r ymresymiad dros y penderfyniad, ac esboniad o'r modd yr amcangyfrifwyd nifer yr oriau, wedi'u nodi isod.

Er mwyn rhoi amcangyfrif realistig o'r gwaith y byddai angen ei wneud, o bosibl, er mwyn ymateb i'r cais hwn, holais y tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn maes gwasanaeth Adnoddau Dynol y Comisiwn.

Mae'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant yn helpu staff i gynhyrchu cyhoeddiadau hygyrch; trefnu cymorth ar gyfer cyfieithiadau, cyfieithu ar y pryd, a chyfathrebu; darparu cyngor ar sicrhau bod adeiladau ac offer yn hygyrch; a rhoi cyngor a sesiynau briffio am ystod o bynciau yn ymwneud â chydaddoldeb.

Nodwyd mai Rhan F oedd y darn mwyaf sylweddol o'r cais. Yn sgil hynny, gwnaed asesiad o'r costau tebygol a fyddai ynghlwm wrth ymateb i'r rhan honno o'ch cais. Cynhaliwyd ymarfer enghreifftiol a oedd yn cynnwys y defnydd o ffeiliau electronig ac e-byst er mwyn amcangyfrif faint o waith y byddai angen ei wneud dim ond er mwyn ymdrin â'r agwedd hon ar eich cais ehangach.

Ar hyn o bryd, mae tri aelod o staff yn gweithio yn y tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae tri aelod arall o staff hefyd wedi bod yn gwneud gwaith ar ran y tîm. Serch hynny, dim ond dau aelod o staff y cysylltwyd â hwy at ddibenion cynnal yr ymarfer hwn.

Cytunodd yr aelodau staff ar restr o 15 o dermau chwilio. Roedd y termau chwilio yn cynnwys yr anabledau a ddisgrifir yn rhan F, yn ogystal ag anabledau cyfathrebol, ymddygiadol a chymdeithasol eraill. Cynhaliodd y staff chwiliadau yn eu cyfrifon e-bost personol ar Outlook, yn y blwch post a rennir gan y tîm, yn un o'r ffolderi a rennir ar SharePoint, ac yn eu ffolderau personol ar OneDrive. Daethpwyd o hyd i gyfanswm o 36,230 o eitemau.

Yn seiliedig ar ymarfer samplu, treuliodd y staff oddeutu 60 eiliad yn adolygu pob e-bost/dogfen unigol er mwyn penderfynu a oedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei chadw ai peidio. Yn seiliedig ar y sampl honno, rydym yn amcangyfrif y byddai gofyn i ran o'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant dreulio 603 o oriau yn casglu'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â rhan F o'r cais yn unig. Nid yw'r amcangyfrif hwn yn cynnwys yr amser y byddai angen ei dreulio yn dethol y wybodaeth er mwyn ei darparu i chi.

Yn ogystal â'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant, rwy'n ystyried ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth berthnasol yn cael ei chadw gan feysydd gwasanaeth eraill yn y sefydliad, gan gynnwys y tîm Rheoli Ystadau a Chyfleusterau, y Tîm Ymgysylltu a'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Rhaid i mi bwysleisio na chafodd y timau hynny eu holi ar y mater

hwn at ddibenion eu cynnwys yn yr ymarfer amcangyfrif, gan fy mod wedi dewis y tîm a oedd yn fwyaf tebygol o gadw gwybodaeth berthnasol.

O dan yr amgylchiadau hyn, rydym o'r farn y byddai'n briodol ymdrin â'r achos hwn fel eithriad yn seiliedig ar y gost o gydymffurfio â'ch cais. Yn achos eich cais chi, mae'r costau yn amlwg yn ormodol, gan eu bod dros 25 gwaith y "terfyn priodol".

Dylwn ei gwneud yn glir hefyd, er ein bod wedi dibynnu ar yr eithriad o dan adran 12 o'r Ddeddf, nid yw hynny'n awgrymu na fyddai eithriadau eraill, wrth ystyried ymhellach, wedi bod yn berthnasol yn y pen draw hefyd.

Yn sgil egluro'r materion a fyddai'n gysylltiedig â chydymffurfio â'ch cais, hoffwn nodi hefyd, os oes gennych gais gwahanol neu gais mwy penodol yr hoffech ei gyflwyno, byddwn wrth gwrs yn ei ystyried.

O ran ystyried a ydych am gyflwyno cais arall, efallai yr hoffech ddarllen y wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan ar ffurf cyhoeddiadau blynyddol ac achrediadau gan sefydliadau anabledd amrywiol. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

- Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd achrededig, yn croesawu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein **gwefan**.
- https://senedd.cymru/media/32jjpit/dignity-and-respect-policy_w.pdf
- <https://senedd.cymru/media/bmynbwva/amrywiaeth-a-chynhwysiant-adroddiad-blynyddol-2020-2021.pdf> (senedd.cymru)
- <https://senedd.cymru/comisiwn/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-y-comisiwn/>
- [Ymwelwyr sydd ag awtistiaeth](#)
- [Cydnabyddiaeth a gwobrau allanol](#) (senedd.cymru)

Yn gywir,

Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF